LC294

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) 2001**

**Y cefndir**

Mae'r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer rheoli clefyd betys siwgr o'r enw rhizomania.

Mae gan y DU statws gwarchodedig ar gyfer rhizomania o dan Gyfundrefn Iechyd Planhigion y CE. Mae hon yn caniatáu i reolaeth ar fewnforio, a rheolaeth ar ffermydd sydd wedi'u heintio, gael eu defnyddio. Mae'r trefniadau ar gyfer parthau hefyd yn cynnwys rheolau ar fasnachu amryw byd o gynhyrchion, megis tatws, a all gario pridd sydd wedi'i heintio.

Mae'r Gorchymyn presennol yn diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Prydain Fawr) 1993 er mwyn rhoi'r canlynol ar waith ar gyfer Cymru.

Mae darpariaeth debyg wedi'i gwneud ar gyfer Lloegr a'r Alban yn barod, a daeth i rym ar 1 Rhagfyr 1999 (OS 1999/2726 ac OSA 1999/129).

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol yn ffurfiol i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5. Er hynny, tynnir sylw at y sylwadau cyffredinol canlynol.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Nodyn Esboniadol**

Dywedir yn yr ail baragraff fod y Gorchymyn hwn yn gymwys i symudiadau o fewn y DU ac

i’r DU.  Mae’r Pwyllgor o’r farn y gallai’r geiriad presennol beri dryswch, gan mai i Gymru yn unig y mae’r Gorchymyn yn gymwys.  Gan hynny, mae’n gwahodd ystyriaeth ar briodoldeb y geiriad.  Nodir nad yw’r Gorchmynion sydd wedi’u gwneud ar gyfer Lloegr a’r Alban yn cynnwys y paragraff hwn o gwbl.

**Rhifau**

Mae angen diwygio rhifau erthyglau a pharagraffau, naill ai drwy gyfrwng memorandwm cywiriadau neu adeg argraffu.

**Troednodyn (b)**

Ceir cromfach yn llinell 4 o’r testun Saesneg sy’n wynebu’r ffordd anghywir.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

26 Mehefin 2001